**Teitl: Mannau ysbrydol : Beth sy’n gwneud lle yn ysbrydol?**

| **Teitlau** | **Encil y Bwdyddion yng Nghricieth.** | **Eglwys mewn Coedwig (Powys)** | **Ydy lle yn bwysig os yw Duw ym mhob man?** |
|---|---|---|---|
| **Rhesymeg**<br><br>. | **YMWADIAD:** Mae'r Nodiadau i Athrawon wedi'u diweddaru er mwyn gallu defnyddio'r adnodd drwy Gwricwlwm i Gymru. Wedi dweud hynny, mae cynnwys yr erthyglau wedi'i archifo ac nid yw'r wybodaeth wedi'i diweddaru. Mae'r erthyglau yn cael eu cadw ar y wefan gan fod y cynnwys yn parhau i fod yn berthnasol i Gwricwlwm i Gymru: Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.<br><br>**Pedwar diben 'Cwricwlwm i Gymru - Cwricwlwm am Oes'**<br>**Drwy ddysgu am Fannau ysbrydol a beth sy’n gwneud lle yn ysbrydol fel rhan o'u gwersi addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, bydd cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu yn:**<br>• Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n gallu egluro'r syniadau a'r cysyniadau maen nhw'n eu dysgu;<br>• Unigolion iach a hyderus sydd â gwerthoedd cadarn ac sy'n sefydlu eu credoau ysbrydol a moesol;<br>• Cyfranogwyr mentrus, creadigol sy'n rhoi o'u hegni a'u sgiliau er budd pobl eraill;<br>• Dinasyddion moesol, dysgedig a fydd yn ymgysylltu â materion cyfoes yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u gwerthoedd.<br><br>**Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y Cwricwlwm i Gymru**<br>**Drwy ddarllen a defnyddio'r erthyglau yn eu gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, caiff dysgwyr gyfleoedd i:**<br><br>• Ymgysylltu â chwestiynau athronyddol a thyngedfennol, a'u harchwilio<br>• Ymgymryd ag ymholiadau ac ymgysylltu â ffynonellau o ddoethineb ac athroniaethau<br>• Datblygu a mynegi eu safbwyntiau dysgedig eu hunain<br>• Defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am safbwyntiau byd-eang crefyddol a heb fod yn grefyddol i feddwl yn feirniadol am eu gwerthoedd eu hunain<br>• Archwilio'r ffyrdd mae argyhoeddiadau athronyddol crefyddol a heb fod yn grefyddol wedi dylanwadu ar brofiad dynol drwy gydol hanes<br>• Gwerthuso amrywiaeth o ffynonellau crefyddol a heb fod yn grefyddol a defnyddio tystiolaeth ohonynt i ymgysylltu â materion moesegol a moesol<br>• Archwilio credoau ac arferion pobl yn eu cymuned, yng Nghymru ac yn y byd ehangach ac ymateb yn sensitif iddynt<br>• Datblygu gwerthoedd cadarn a sefydlu eu credoau moesol a'u hysbrydolrwydd<br>• Trafod eu persbectifau eu hunain a phersbectifau eraill, a myfyrio arnynt | | |

| Teitlau | Encil y Bwdyddion yng Nghricieth. | Eglwys mewn Coedwig (Powys) | Ydy lle yn bwysig os yw Duw ym mhob man? |
|---|---|---|---|
| | **Y lens Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg**<br>Drwy ddarllen a defnyddio'r erthyglau yn eu gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, caiff dysgwyr gyfleoedd i archwilio amrywiaeth o gysyniadau yn ymwneud â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg drwy'r **is-lensys isod:**<br>• Chwilio am ystyr a diben;<br>• Y byd naturiol a phethau byw;<br>• Hunaniaeth a pherthyn;<br>• Awdurdod a dylanwad;<br>• Perthnasoedd a chyfrifoldeb;<br>• Gwerthoedd a moeseg;<br>• Taith bywyd;<br><br>*Noder bod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cael eu pennu'n lleol drwy faes llafur cytunedig. Mae gan bob awdurdod lleol ei faes llafur cytunedig ei hun ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y mae'n rhaid i ysgolion ei ystyried. Mae pob maes llafur sydd wedi'i gytuno wedi ystyried fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a chanllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y cyfeirir atynt uchod ac isod.<br><br>**Dolenni Defnyddiol:**<br><br>**Canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/designing-your-curriculum/#religion,-values-and-ethics-guidance**<br>**Canllawiau Dyniaethau Hwb - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities**<br>**Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/statements-of-what-matters/**<br>**Themâu Trawsgwricwlaidd - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/designing-your-curriculum/#cross-cutting-themes** | | |
| **Geirfa allweddol** | 1. Lloches - lle i fynd er mwyn cael llonydd/amser i feddwl ac ati.<br>2. Lama – teitl am athro o fewn traddodiad Bwdhaeth Tibet.<br>3. Stupa – colofn main sydd fel arfer yn cynnwys gweddillion athro neu fynach Bwdhaidd.<br>4. Sangha – term am gymuned | 1. trefn addoliad: *order of service*<br>2. datblygiad: *development*<br>3. Salmydd: *psalmist* bardd a ysgrifennodd y Salmau, caneuon o weddi a mawl sydd yn Llyfr y Salmau yn y Beibl. Mae 150 o Salmau, llawer iawn wedi eu hysgrifennu gan y brenin Dafydd (wnaeth ymladd yn erbyn Goliath!) | 1. Rhyd-ddu – pentref yn Eryri yng Ngwynedd lle magwyd y bardd T.H.Parry Williams<br>2. Cynefin – ardal y mae rhywun yn gyfarwydd ag o<br>3. Varanasi – dinas yng Ngogledd India sy'n arbennig iawn I Hindwiaid am fod yr afon Ganges yn llifo drwy'r ddinas. |

| Teitlau | Encil y Bwdyddion yng Nghricieth. | Eglwys mewn Coedwig (Powys) | Ydy lle yn bwysig os yw Duw ym mhob man? |
|---|---|---|---|
| | Bwdhaidd sy'n aml yn cynnwys mynachod a lleianod.<br>5. Myfyrio – ymarferiad ar gyfer y meddwl er mwyn rhoi lle i'r cadarnhaol dros y negyddol.<br>6. Mewnwelediad – dod i ddeall gwir natur pethau.<br>7. Encilio – amser i ffwrdd oddi wrth fywyd bob dydd er mwyn meddwl, yn aml mewn lle arbennig<br>*8.* Delwedd – gwrthrych ag ystyr arbennig iddo, *e.e. mewn Bwdaeth mae cael cerflun o'r Bwdha yn beth cyffredin.* | 4. anweledig: rhywbeth rydyn ni'n methu ei weld, *invisible*<br>5. di-ben-draw: byth yn dod i ben *never ending*<br>6. myfyrio: meddwl yn ddwfn am rywbeth *to meditate*<br>7. machlud: pan mae'r haul yn mynd i lawr *sunset*<br>8. profiadau ysbrydol: *spiritual experiences*<br>9. symudiad: *movement*<br>10. meddyginiaethau: ffisig/eli sy'n gwneud i berson wella o salwch *medicines*<br>11. cadwraeth*: preservation*. Edrych ar ôl ac amddiffyn y byd.<br>12. defod: *ritual*<br>13. paganaidd: *pagan* rhywbeth di-Dduw, neu sydd ddim yn perthyn i'r ffydd Gristnogol<br>14. Dysgeidiaeth ysgrythurol: gwersi o'r Beibl *scriptural teaching*<br>15. Mynachod: dynion oedd yn cymryd llw i fyw mewn ffordd arbennig a gwasanaethu Duw: *monks*<br>16. Llesol: gwneud i chi deimlo'n well *beneficial* | 4. Ganges – afon gysegredig Hindwaeth.<br>5. Shiva - un o'r Trimurti Hindwaidd sy'n cynrychioli yr agwedd ddinistriol o Brahmam<br>6. Atman – yr enaid sydd ym mhopeth byw yn ol y gred Hindwaidd.<br>7. Brahman – y Duw neu'r enaid mawr mewn Hindwaeth.<br>8. Moksha – nod bywyd yr Hindw sef cael yr enaid I ail-ymuno a Brahman.<br>9. Via Dolorosa – taith Iesu ar ol cael ei gondemnio gan Peilat I fryn Calfaria I gael ei groeshoelio.<br>10. Makkah – dinas sanctaidd crefydd Islam yn Saudi Arabia<br>11. Hajj – un o bileri Islam – pererindod I makkah<br>12. Y Forwyn Fair – Mair mam Iesu |
| **Geiriau chwilio** | Lloches<br>Bwdha<br>Bwdhaeth<br>Delwedd<br>Myfyrdod<br>Cymuned<br>Stupa<br>Sangha | Lleoedd arbennig<br>Eglwys Goedwig<br>Addoli<br>Awyr agored<br>Ysbrydol<br>Forest Church<br>Defod<br>Gardd weddi<br>Myfyrio<br>Ardal dawel | Bro<br>Hindŵ<br>Ganges<br>Bethlehem<br>Jerwsalem<br>Varanasi<br>Makkah<br>Pabyddol<br>Ffrainc<br>Iwerddon |

| Teitlau | Encil y Bwdyddion yng Nghricieth. | Eglwys mewn Coedwig (Powys) | Ydy lle yn bwysig os yw Duw ym mhob man? |
|---|---|---|---|
| | | | Portiwgal<br>Mosg<br>Synagog<br>Capel<br>Eglwys<br>Israel<br>Adeiladau |
| **Tasgau dosbarth** | Tasgau ysgrifennu estynedig sy'n gofyn i'r disgyblion i ddefnyddio'r 3 erthygl, cyfeirio at gredoau/dysgeidiaethau ac arferion crefyddol wrth ymateb i gwestiynau sylfaenol/crefyddol.<br>• Ydy lle yn bwysig os yw Duw ym mhob man?<br>• Sut mae addoldy/lle sanctaidd yn helpu rhai pobl i addoli? Pam nad yw pawb yn dewis addoli mewn addoldy?<br>• Sut mae'r addoldy/lle sanctaidd yn adlewyrchu sylfeini'r ffydd? Gwerthoedd y ffydd? Dysgeidiaethau'r ffydd?<br>• Ble wyt ti'n teimlo'n ysbrydol? Pa fath o lefydd sy'n gwneud i ti deimlo'n ysbrydol? | | |
| **Tasgau ymestynnol** | 1. Ar ddechrau'r gwaith darllen mae cyfeiriad at sawl lloches posib. Lle fyddech chi yn ei weld fel lloches? Pam dewis y lle hwn? Beth fyddech yn gwneud yno wrth encilio? (Ni chewch ddewis eich ystafell wely!)<br>2. Mae Lama Shenpen Hookham (nid ei henw gwreiddiol!) wedi ymddiddori mewn Bwdhaeth ers 50 mlynedd. Ymchwiliwch i'w hanes gan ddarganfod mwy am ei chefndir, ei theithiau a'r llyfrau y mae wedi eu hysgrifennu. Gallwch weld sawl fideo ganddi ar YouTube.<br>3. Sut cafodd Lama Shenpen Hookham ei harwain i ddewis lleoliad yng Ngogledd Orllewin Cymru? Pam yn eich barn chi fod | 1. Ydy natur yn wneud i chi feddwl am bethau ysbrydol ac am Dduw?<br>2. Oes angen 'stafell neu ardd arbennig mewn ysgol er mwyn i'r disgyblion gael cyfle i fod yn dawel a meddwl am ochr ysbrydol bywyd. Beth am gynllunio ystafell dawel/gardd fyfyrio ar yfer eich ysgol chi.<br>3. Pam yn eich barn chi byddai rhai yn ffafrio addoli mewn adeilad arbennig a dilyn trefn addoli tra bod eraill yn ffafrio meddwl am Dduw a phethau ysbrydol yn yr awyr agored?<br>4. Ysgrifennwch restr o bethau yn y byd natur sy'n gwneud i chi deimlo fel dweud 'Waw!' Roedd Iesu yn defnyddio darluniau o fyd | 1. Dewiswch le arbennig i chi a cheisiwch ysgrifennu darn o farddoniaeth neu ryddiaith sy'n cyfleu pam ei fod yn arbennig.<br>2. Gwrandewch ar Geraint Lovgreen yn canu 'Yma wyf innau i fod' a cheisiwch egluro'r berthynas rhwng Meirion Macintyre Huws a thref Caernarfon.<br>3. Ymchwiliwch ymhellach i bwysigrwydd Varanasi I Hindŵiaid neu Makkah I Fwslimiaid.<br>4. Dychmygwch eich bod wedi bod ar bererindod I Varanasi neu Makkah ac ysgrifennwch blog am eich profiadau a beth oedd gwerth yr ymweliadau.<br>5. A oes gwerth i adeiladau crefyddol neu |

| Teitlau | Encil y Bwdyddion yng Nghricieth. | Eglwys mewn Coedwig (Powys) | Ydy lle yn bwysig os yw Duw ym mhob man? |
|---|---|---|---|
| | lleoliad o'r fath yn addas ar gyfer lle i encilio? Cofiwch edrych ar y sylwadau gan rai a fu yno.<br>4. Lluniwch boster neu hysbyseb ar gyfer Lloches y Galon Effro. Mae llawer o wybodaeth a lluniau ar y safle gwe: https://buddhisthermitage.wales<br>5. Ceisiwch esbonio'r hyn y mae Lloches y Galon Effro yn ceisio ei gyflawni. Beth sydd gan y ganolfan i'w gynnig i bobl yng nghanol prysurdeb bywyd yr unfed ganrif ar hugain?<br>6. Lluniwch daflen wybodaeth ar Fwdhaeth gan gynnwys rhai o brif ddelweddau'r grefydd, *e.e. y Stupa a delwau o'r Bwdha.* | natur i ddysgu pobl. Gwnewch ychydig o ymchwil, a rhestru'r damhegion (storïau sy'n dysgu) sy'n cyfeirio at bethau o'r byd naturiol. Ymchwiliwch sut oedd Iesu wedi defnyddio byd natur i esbonio'i neges.<br>5. Amcangyfrifir fod cymaint â 750 adnod yn y Qur'an sy'n ymwneud â natur. Chwiliwch am enghreifftiau. <http://www.greenmuslims.org/greenscripture/> | bererindod os yw Duw ym mhobman? Trafodwch |
| **Adnoddau pellach** | https://buddhisthermitage.wales | www.mysticchrist.co.uk/forest_church<br><br>http://www.greenmuslims.org/greenscripture/ | Cân Meirion Macintyre Huws a Geraint Lovgreen, 'Yma wyf innau i fod'<br><br>Ystafell weddïo aml-ffydd Prifysgol Caerdydd <https://www.cardiffstudents.com/shops-services/prayer-room/><br><br>Ystafell aml ffydd Maes Awyr Caerdydd<br><br>https://www.maesawyr-caerdydd.com/cyfleusterau-aml-ffydd/ |

| Teitlau | Encil y Bwdyddion yng Nghricieth. | Eglwys mewn Coedwig (Powys) | Ydy lle yn bwysig os yw Duw ym mhob man? |
|---|---|---|---|
| | | | |